# Gweithgaredd Diemwnt y Ddeddf Naturiol

Gweithgaredd: Ysgrifennwch un o'r pedair deddf yn erbyn pob un o bedair cornel y diemwnt. (Deddf Dragwyddol, Deddf Naturiol, Deddf Ddynol a Deddf Ddwyfol). Dylai safle pob un adlewyrchu ei phwysigrwydd .



1. Pa un roesoch chi ar y brig, a pham?
2. Pa un roesoch chi ar y gwaelod, a pham?
3. Sut y gellid diffinio'r ddeddf naturiol?
4. Beth a olygir wrth ddweud bod y ddeddf naturiol yn un hollgyffredinol?

© WJEC CBAC LTD

ATEBION

1. **Y ddeddf dragwyddol yw gwir bwrpas y cread sy'n bodoli ym meddwl Duw. Fe'i datguddir ym mhob peth a grëwyd ac mae'n sylfaenol iddynt (bodau dynol, anifeiliaid, mae wedi'i datguddio hefyd mewn ffiseg, cemeg, bioleg).**

2. **Y ddeddf ddynol, gan ei bod yn ddatrysiad trwy reswm o'r hyn a ddatguddiodd Duw inni yn y ddeddf ddwyfol a'r ddeddf naturiol.**

3. **Mae Tomos o Acwin yn ei diffinio fel 'cyfranogaeth y creadur rhesymol yn y ddeddf dragwyddol' (ST II.I Q92).**

4. **Dan y ddeddf naturiol mae pawb yn anelu at nodau rhesymol – mae'r rhain wedi'u cynllunio ym mhawb gan Dduw. Felly mae pob bod dynol wedi'i ffurfio fel hyn, dadleua Tomos, ac yn rhannu synderesis sylfaenol (adnabod da a drwg).**

© WJEC CBAC LTD